**Ymgynghoriad Agored**

# Ymchwiliad Ar Ei Liwt Ei Hun Ehangach Arfaethedig Gofalwyr: Asesiadau o anghenion a chwynion

Dyddiad ac amser cau'r ymgynghoriad: **6 Chwefror 2023, 23:59**.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch ar ffurf wahanol, e-bostiwch **liwteihun@ombwdsmon.cymru** neu defnyddiwch un o’r opsiynau dan y pennawd ‘Sut i ymateb’ isod.

## Trosolwg

Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (“PSOW”) y pŵer i gynnal ymchwiliadau ‘ar ei liwt ei hun’ pan fo tystiolaeth yn awgrymu methiant gwasanaeth systemig neu gamweinyddu. Bellach, mae’r Ombwdsmon yn ystyried cynnal ymchwiliad o ran pa mor rhwydd yw hi i ofalwyr gael mynediad i’r isod, a’u heffeithiolrwydd:

- asesiadau o anghenion gofalwyr
- prosesau cwynion awdurdodau lleol ac iechyd.

Diben yr ymchwiliad fyddai nodi rhwystrau y mae gofalwyr yn eu gwynebu yn y meysydd penodol hyn.

Lle bo tystiolaeth, byddai’r ymchwiliad yn nodi argymhellion ar gyfer gwelliannau i sicrhau bod gofalwyr yn derbyn asesiadau o anghenion effeithiol ac amserol, a bod gofalwyr yn gallu ymgysylltu’n effeithiol â phrosesau cwynion awdurdodau lleol ac iechyd. Byddai’r ymchwiliad hefyd yn rhannu unrhyw arfer da a nodir i lywio gwelliant ledled gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Gwahoddir sylwadau ac ymatebion ar yr ymchwiliad arfaethedig.

## Diben yr ymgynghoriad

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“y Ddeddf”) i rym ar 6 Ebrill 2016, a chreodd fframwaith deddfwriaethol i ddod â’r gyfraith sy’n llywodraethu gofal cymdeithasol yng Nghymru at ei gilydd, a’i moderneiddio. Nod y Ddeddf oedd gwella deilliannau lles i bobl sydd angen gofal a chymorth, ac i ofalwyr sydd angen cymorth, drwy gydlyniad a chydweithio gwell rhwng cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol a’r GIG.

Mae’r Ddeddf yn diffinio gofalwr yn rhywun sy’n darparu gofal neu sy’n bwriadu darparu gofal di-dâl i oedolyn neu blentyn anabl. Mae’n bosibl y bydd yr unigolyn sy’n derbyn gofal yn aelod o’r teulu neu’n ffrind sydd, oherwydd salwch, anabledd neu broblem iechyd meddwl, neu ddibyniaeth, yn methu ag ymdopi heb y gofal.

Lle mae’n ymddangos y gallai gofalwr fod ag anghenion cymorth, mae Rhan 3 o’r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiadau cyfrannol i bennu a oes gan ofalwr anghenion cymorth (neu’n debygol o fod â rhai yn y dyfodol) ac os oes gan y gofalwr anghenion o’r fath, beth yw’r rhain (neu beth maen nhw’n debygol o fod yn y dyfodol). Ymhlith y materion y mae angen eu hystyried yn rhan o’r broses asesu mae a yw’r gofalwr yn gallu ac am barhau i ddarparu gofal i’r unigolyn; y deilliannau y mae’r

gofalwr am eu gweld ac i ba raddau y gallai darpariaeth cymorth, gwasanaethau ataliol, gwybodaeth, cyngor, cymorth, neu faterion eraill fodloni'r anghenion hynny.

Mae Gofalwyr Cymru wedi cyhoeddi ffeithiau a ffigurau allweddol[1] yn nodi nifer y bobl yr effeithir arnynt:

- Mae 370,230 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru yn ôl cyfrifiad 2011.
- Nododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod 487,000 o ofalwyr yng Nghymru mewn arolwg yn 2019.
- Bob blwyddyn yng Nghymru, mae 123,000 o bobl yn dod yn ofalwyr di-dâl.
- Mae gofalwyr yng Nghymru yn arbed £8.1 biliwn y flwyddyn i economi Cymru drwy ddarparu gofal a chymorth di-dâl i'w hanwyliaid a fyddai fel arall yn gorfod cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol a'r GIG.

Mae gan awdurdodau lleol a chyrff Iechyd brosesau cwynion statudol sy'n cael eu dilyn pan fydd unigolyn yn dymuno cwyno. Os yw unigolyn yn anfodlon ar ymateb corff cyhoeddus, gall gwyno i'r PSOW.

## Yr ymgynghoriad

Er mwyn cynnal ymchwiliad 'ar ei liwt ein hun' dan adran 4 o'r Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 ("y Ddeddf PSOW"), rhaid i'r PSOW ystyried ei feini prawf cyhoeddedig.[2] Mae'r Ddeddf PSOW a'n meini prawf yn amlinellu bod rhaid inni ystyried:

- A yw'r mater yn un o ddiddordeb cyhoeddus
- A oes amheuaeth resymol o gamweinyddu systemig neu fethiant gwasanaeth, neu y gallai hyn ddigwydd, a all achosi i unrhyw unigolyn brofi anghyfiawnder neu galedi
- A yw'r mater yn effeithio ar grŵp eang o ddinasyddion, i'r fath raddau fel eu bod nhw'n debygol o brofi anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i'r mater yn cael ei ystyried yn un i'w ymchwilio

Mae adolygiad o gofnodion achosion PSOW yn dangos nifer isel o gwynion gan ofalwyr neu'r rhai sy'n derbyn gofal. Mae lefel y cwynion sy'n dod i law gan ofalwyr neu'r rhai sy'n derbyn gofal yn is na'r nifer a fyddai'n rhesymol ei disgwyl, o ystyried bod 12% o boblogaeth Cymru yn ofalwyr.[3] Mae'n rhesymol ystyried fod gofalwyr **a'r** rhai sy'n derbyn gofal yn fwy dibynnol ar wasanaethau cyhoeddus na phobl eraill,

[1] Gofalwyr Cymru – Ffeithiau a ffigyrau - Carers UK
[2] Ymchwiliadau ar ei Liwt ei Hun PSOW – Meini Prawf ar gyfer Ymchwiliad
[3] Amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi Cymru – Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

oherwydd eu hanghenion eu hunain fel gofalwyr, neu eu hanghenion fel rhywun sy'n derbyn gofal. Mae diffyg cwynion o'r fath yn awgrymu nad yw gofalwyr a phobl sy'n derbyn gofal o bosibl yn ymwybodol o'r llwybrau sydd ar gael iddynt o ran codi pryderon, efallai bod ganddynt flaenoriaethau pwysicach, neu eu bod wedi colli hyder i fynd ar ôl eu cwynion.

Mae gwaith allgymorth a wnaeth gan PSOW wedi darparu tystiolaeth fod gofalwyr wedi wynebu rhwystrau o ran derbyn asesiadau o anghenion, ac wrth geisio cwyno am gamweinyddu a methiannau gwasanaeth. Os a phryd y cafodd eu cwynion eu derbyn, roedd gofalwyr o'r farn eu bod wedi derbyn ymatebion annigonol.

Roedd trafodaethau diweddar gyda chyrff rheoleiddio eraill a chyrff cyngor ac eirioli yn nodi cefnogaeth am ymchwiliad ar y pwnc. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw un o'r cyrff hyn yn gwneud gwaith yn y maes ar hyn o bryd, nac yn bwriadu gwneud chwaith. Mae hyn yn awgrymu y byddai er budd y cyhoedd i PSOW ymchwilio'r pwnc.

Mae rôl gofalwyr o ran iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn hanfodol; maent yn aml yn cael eu disgrifio fel y 'trydydd coes' ar 'stôl â thair coes'. Mae eu rôl amhrisiadwy yn awgrymu ymhellach y byddai er budd y cyhoedd i ymchwilio'r pwnc hwn.

Mae PSOW yn ceisio barn ar yr ymchwiliad arfaethedig a'i gwmpas a awgrymwyd.[4] Gwahoddir sylwadau a thystiolaeth o ran a fyddai er budd y cyhoedd i PSOW ymchwilio materion ar y pwnc hwn, ac yn nodi ai PSOW yw'r corff priodol i gynnal ymchwiliad o'r fath.

Croesewir yn benodol tystiolaeth neu farn gan:

- Rhai sy'n ofalwyr di-dâl neu sy'n derbyn gofal gan ofalwyr di-dâl ac sydd wedi cael profiad o'r broses asesiadau i ofalwyr, a/neu weithdrefn gwyno gwasanaeth iechyd a/neu awdurdod lleol.
- Rhai sydd wedi cael profiad o ymgysylltu â'r broses asesu gofalwyr a/neu gwynion gan ofalwyr di-dâl neu bobl sy'n derbyn gofal.
- Rhai sydd wedi cael profiad yn cynorthwyo pobl drwy'r prosesau hyn, neu sydd wedi profi'r broses eu hunain.
- Awdurdodau lleol a chyrff sy'n cynrychioli awdurdodau lleol.

[4] Yn unol ag adran 4(2)(c) Deddf PSOW.

- Byrddau iechyd.
- Darparwyr gofal sylfaenol.
- Eiriolwyr.
- Sefydliadau trydydd sector.
- Cynrychiolwyr etholedig.
- Rhai â diddordeb yn y pwnc hwn.

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

### Asesiadau o anghenion

1. A yw asesiadau o anghenion (i ofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal) yn cael eu cynnig a'u cyflawni yn briodol ac mewn modd amserol?

2. A yw gofalwyr yn profi rhwystrau a heriau o ran derbyn asesiadau o anghenion (naill ai yn bersonol neu o ran yr unigolyn y maen nhw'n gofalu amdano)?

3. Os caiff anghenion eu nodi, a yw'r gofal a'r cymorth a ddarperir yn unol â'r hyn y cytunwyd arno ac mewn modd amserol?

### Prosesau cwynion

4. A yw gofalwyr yn derbyn gwybodaeth berthnasol am gyflwyno cwyn ac am y weithdrefn gwynion, gan gynnwys sut i godi cwyn anffurfiol a chyfeirio at gyrff Cyngor ac Eirioli?

5. A yw gofalwyr yn profi rhwystrau a heriau wrth godi cwynion am y gofal a ddarperir i'r rhai y maen nhw'n gofalu amdanynt?

6. A yw awdurdodau lleol yn symud cwynion gwasanaethau cymdeithasol i Gam 2 (ymchwilio anffurfiol), gan gynnwys Ymchwilwyr Annibynnol, os oedd datrysiad lleol yn aflwyddiannus?

7. A yw awdurdodau lleol a/neu ddarparwyr gwasanaethau iechyd yn cydymffurfio â gweithdrefnau ac amserlenni a nodir yn eu gweithdrefnau ymdrin â chwynion?

8. A oes anawsterau penodol o ran mynd ar ôl cwynion sy'n cynnwys gwasanaethau ar y cyd a ddarperir gan awdurdod lleol **a** bwrdd iechyd?

9. A yw cwynion gan ofalwyr yn cael eu datrys mewn modd digonol? Os na, yw gofalwyr yn cael gwybod am eu hawl i gyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon os na chaiff ei datrys yn foddhaol?

10. Yw gwersi'n cael eu dysgu o gwynion gofalwyr (waeth beth fo'r datrysiad) i lywio dysgu a gwella darpariaeth gwasanaeth?

### Sylwadau eraill

11. Pa effeithiau y gallai'r ymchwiliad hwn eu cael ar y Gymraeg ac yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac wrth beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? Sut y gellid hybu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?
12. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

## Sut i ymateb

Rhannwch eich barn â ni erbyn 23:59 ar **6 Chwefror 2023** drwy ddefnyddio unrhyw rai o'r dulliau isod:

- Llenwch ein **ffurflen ar-lein**
- E-bostiwch eich ymateb i **liwteihun@ombwdsmon.cymru**
- Postiwch eich ymateb i:
  **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
  **1 Ffordd yr Hen Gae**
  **Pencoed**
  **CF35 5LJ**
- Ffoniwch ni ar **01656 644238** a gofynnwch i gael siarad â'r Swyddog Ymchwiliadau Ar Liwt Ei Hun.

## Hysbysiad Preifatrwydd

Dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- I gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch chi, a chael mynediad iddo.
- I ofyn inni gywiro unrhyw gamgymeriadau yn y data hwnnw.
- I wrthwynebu neu atal prosesu (mewn amgylchiadau penodol).
- I'ch data gael ei 'ddileu' (mewn amgylchiadau penodol).
- I gludadwyedd data (mewn amgylchiadau penodol).

- I gyflwyno cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriadau ar gael yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych chi i'ch ymateb fod yn ddienw, rhowch wybod inni.

Gweler ein **Hysbysiad Preifatrwydd Cyffredinol** i gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei chadw a'i defnydd, neu os hoffech arfer eich hawliau dan RhDDC. Mae ein **Hysbysiad Preifatrwydd Ymgynghoriadau** yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y ffordd rydyn ni'n defnyddio eich data ar gyfer ymgynghoriadau.